Llywodraeth Cymru
Welsh Government



# Y dull arfaethedig o ddatblygu Ardaloedd Adnoddau Strategol i gefnogi'r gwaith o weithredu polisi diogelu CMCC

Gorffennaf 2021



# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Cefndir | 1 |
| Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – dull gofodol Llywodraeth Cymru o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru | 2 |
| Cyd-destun polisi Cynllunio Morol ar gyfer Ardaloedd Adnoddau Strategol | 3 |
| Ein hymagwedd tuag at ddatblygu'r Ardaloedd Adnoddau Strategol | 5 |
| Atodiad 1 - Diogelu gweithgarwch presennol a defnyddio adnoddau | 7 |
| Atodiad 2 – Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy | 9 |


Y ddelwedd ar y clawr wedi'i darparu gan Croeso Cymru


OGL © Hawlfraint y Goron 2021


WG43138 ISBN digidol 978-1-80195-749-6

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English

## Cefndir

Mae'r CMCC yn cynnwys polisïau sy'n **cefnogi** ac yn **diogelu** sectorau. Mae rhai o'r dulliau polisi cynllunio hyn sy'n canolbwyntio ar sectorau yn ofodol eu natur ac, o safbwynt cynllunio morol, maent yn cael eu datblygu fel rhan o **ddull gofodol** o weithredu CMCC.

Mae polisïau **cefnogi** yn cynnwys (lle y bo'n briodol, yn dibynnu ar natur sector penodol) polisi sy'n annog datblygu gwell dealltwriaeth o **gyfleoedd yn y dyfodol** ar gyfer twf cynaliadwy sector. Mewn rhai achosion, caiff hyn ei ymestyn i gynnwys cyfleoedd hefyd i ddatblygu tystiolaeth a allai gefnogi'r broses o ddiffinio **Ardal Adnoddau Strategol (AAS)** sy'n diogelu ar gyfer y sector.

Mae polisïau **diogelu** yn y cynllun **(DEF_01** a **SAF_01**) yn sicrhau bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i **weithgaredd sefydledig**, cyfredol (e.e. pysgota, llongau neu dwristiaeth a hamdden) neu **weithgaredd** wedi'i gynllunio ac **wedi'i gydsynio** (e.e. unrhyw ddatblygiad sydd angen caniatâd neu awdurdodiad). Mae'r polisïau hyn yn berthnasol tra bo'r cynllun yn weithredol. Ochr yn ochr â hyn, mae polisi diogelu **SAF_02** yn diogelu unrhyw **Ardaloedd Adnoddau Strategol** (ardaloedd ag adnoddau sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol) a sefydlir efallai ar gyfer sector o dan y Cynllun.

Gall tystiolaeth i ddeall **cyfleoedd yn y dyfodol** fod ar sawl ffurf, gan gynnwys gwaith mapio gofodol. Gall **gwahanol bartïon** (datblygwyr, cyrff cynghori, cyrff polisi, rheoleiddwyr, awdurdodau cynllunio) ddatblygu tystiolaeth ar **amrywiaeth o lefelau** a chaiff hyn ei annog oherwydd gall hwyluso cynllunio sector benodol yn effeithiol, gall helpu i osgoi gwrthdaro a chefnogi cydfodolaeth a, gall hefyd helpu i hyrwyddo cynllunio morol.

Mae Llywodraeth Cymru yn cynhyrchu **Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau** a fydd yn darparu tystiolaeth ofodol ar gyfer rhai sectorau fel cyfraniad tuag at bolisïau cefnogi'r sector perthnasol. Gweinidogion Cymru fel yr **awdurdod cynllunio morol** ar gyfer rhanbarthau glannau Cymru a môr mawr Cymru sy'n gyfrifol am unrhyw fapio i nodi unrhyw **Ardaloedd Adnoddau Strategol (AASau)**.

**Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r dull a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru i nodi AAS(au) sector ar gyfer gweithredu polisi CMCC SAF_02. Mae'r dull arfaethedig hwn yn agored i newid ac, o'r herwydd, gall y broses derfynol amrywio o'r hyn a ddisgrifir yma. Nid yw bwriad i nodi AAS(au) o reidrwydd yn golygu y cânt eu cyflwyno; bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Gweinidog ar ôl ymgynghori.**

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy – dull gofodol Llywodraeth Cymru o weithredu Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru

Mae Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru (CMCC) yn nodi dull integredig, seiliedig ar dystiolaeth a arweinir gan gynllun ar gyfer datblygu cynaliadwy, gan barchu defnyddiau a buddiannau sefydledig tra'n ceisio sicrhau manteision o gyfleoedd newydd; cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth, cydnerthedd ecosystemau a gwerth bioamrywiaeth a chefnogi'r gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy (SMNR).

Er mwyn cefnogi’r gwaith o weithredu'r Cynllun, ac yn unol â chyfarwyddyd Datganiad Polisi Morol y DU i ddarparu polisi, gweithredu a chyflawni sydd wedi eu mynegi’n glir, sy’n ofodol ac sy’n berthnasol yn lleol[1], mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull gofodol o ddeall cyfleoedd a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau'n gynaliadwy.

Mae'r dull yn cynnwys:

- rhannu data gofodol drwy'r Porth Cynllunio Morol;
- cynhyrchu Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau;
- diogelu prosiectau wedi'u cydsynio a gweithgareddau sefydledig; a
- y posibilrwydd o nodi Ardaloedd Adnoddau Strategol (AASau) i gymhwyso polisi diogelu CMCC i ddefnydd posibl o adnoddau yn y dyfodol.

Mae Ffigur 1 yn disgrifio'r berthynas rhwng tystiolaeth ofodol sy'n sail i gynllunio morol (e.e. y Porth Cynllunio Morol), tystiolaeth sector-benodol (e.e. Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau sy'n ymwneud â pholisïau cefnogi sectorau) a chanllawiau ar gyfer polisïau diogelu'r sector cynllunio morol.

**Ffigur 1. Polisi cynllunio sector CMCC a thystiolaeth gysylltiedig**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Polisi cynllunio morol sectorau | Polisi cefnogi Sectorau e.e. AGG_01b, AQU_01b | Polisi diogelu sectorau – gweithgarwch cyfredol SAF_01 | Polisi diogelu'r sectorau – defnyddio adnoddau yn y dyfodol (AASau) SAF_02 |
| Tystiolaeth a / neu ganllawiau sy'n benodol i bolisi | Cyfleoedd a chyfyngiadau mapio Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau | Mapio gweithgarwch sectorau | Mapio'r Ardaloedd Adnoddau Strategol |
| Tystiolaeth sylfaenol | Tystiolaeth sylfaenol<br>Adroddiad Tystiolaeth Forol Cymru, Porth Cynllunio Morol Cymru, mapio SMMNR, ymchwil sy'n gysylltiedig â chynllunio | | |

1 Datganiad Polisi Morol y DU, Pennod 2, Adran 2.2.1

## Cyd-destun polisi Cynllunio Morol ar gyfer Ardaloedd Adnoddau Strategol

**Mae polisïau diogelu sectorau CMCC yn cyfrannu at nodau llesiant Cymru drwy gydnabod a diogelu adnoddau naturiol a'u defnydd gan bobl er mwyn diwallu anghenion cenedlaethau presennol (e.e. drwy brosiectau diogelu SAF_01 sydd wedi'u cydsynio a gweithgareddau sefydledig) heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion (e.e. drwy SAF_02 diogelu defnydd posibl o adnoddau yn y dyfodol).**

Drwy gyhoeddi Hysbysiadau Cynllunio Morol (HCMau), mae CMCC yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno AASau sy'n ysgogi ac yn canolbwyntio ar bolisi diogelu CMCC SAF_02 ar gyfer defnydd cynaliadwy posibl o adnoddau yn y dyfodol, gan helpu i ddiwallu anghenion cymdeithasol a sicrhau budd cymdeithasol.

Mae polisi SAF_02 yn helpu i sicrhau bod buddiannau posibl sectorau o ran adnoddau yn cael eu hystyried yn gynnar gan eraill. Mae SAF_02 yn gweithredu ochr yn ochr â SAF_01, sydd eisoes yn cael effaith ac yn diogelu prosiectau sydd wedi'u cydsynio a gweithgareddau sefydledig rhag aflonyddwch amhriodol neu ymyrraeth gan gynigion newydd. Ar gyfer cyd-destun, mae Atodiad 1 yn disgrifio'r dull polisi o ddiogelu gweithgarwch presennol drwy SAF_01.

### SAF_02: Diogelu adnoddau strategol

Rhaid i gynigion a allai gael effeithiau niweidiol sylweddol ar ragolygon unrhyw sector sy'n cael ei gynnwys yn y cynllun hwn i ddefnyddio adnoddau strategol mewn ffordd gynaliadwy yn y dyfodol (adnoddau sydd wedi'u nodi gan AAS) ddangos sut y byddant yn mynd i'r afael â materion cydnawsedd yn ymwneud â'r defnydd posibl o adnoddau.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

Dylid dangos cydnawsedd trwy'r canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth:

- Osgoi effeithiau niweidiol sylweddol ar y defnydd posibl hwn o adnoddau strategol, a/neu
- Lleihau'r effeithiau niweidiol sylweddol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- Lliniaru effeithiau niweidiol sylweddol lle na ellir eu lleihau.

### Ardaloedd Adnoddau Strategol:

Os cânt eu datblygu, bydd AASau yn disgrifio ac yn **diogelu ardaloedd adnoddau naturiol ar wahân** (nid gweithgareddau) a'u bwriad yw **hwyluso deialog ragweithiol** rhwng sectorau er mwyn sicrhau nad yw unrhyw gynlluniau i ehangu defnydd o'r adnoddau yn cyfyngu'n ddiangen ar y naill sector na'r llall.


O'r herwydd, **nid** yw AASau yn rhoi unrhyw hawliau i unrhyw sector eu defnyddio na'u datblygu a bydd angen cymhwyso'r holl reoliadau amgylcheddol (a pholisïau o fewn y Cynllun) yn llawn ar gyfer unrhyw ddatblygiad a ddatblygir o fewn unrhyw AAS (fel sy'n digwydd ym mhob lleoliad arall). Nid yw nodi AASau yn golygu rhagnodi senarios datblygu yn y dyfodol. Felly nid yw'n llywio asesiad ystyrlon o effeithiau amgylcheddol (cronnol) yn uniongyrchol. Fodd bynnag, er nad yw senarios datblygu yn cael eu rhagnodi o fewn AASau, mae'r broses o ystyried anghenion adnoddau unrhyw sector yn y dyfodol, gan gynnwys rhyngweithiadau sector i sector a materion amgylcheddol, yn gam tuag at system cynllunio morol sydd â ffocws mwy gofodol a chydlynol.

## Ardaloedd Adnoddau Strategol ac Ardaloedd Adnoddau:

Mae Ardaloedd Adnoddau Strategol yn welliant gofodol ar Ardaloedd Adnoddau ehangach (sy'n disgrifio graddau gofodol llawn adnoddau naturiol sy'n berthnasol i sector).

Mae Ffigur 2 yn disgrifio'r berthynas rhwng Ardaloedd Adnoddau ac Ardaloedd Adnoddau Strategol.

**Ffigur 2. Y berthynas rhwng Ardaloedd Adnoddau ac Ardaloedd Adnoddau Strategol**



## Ein hymagwedd tuag at ddatblygu'r Ardaloedd Adnoddau Strategol

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu dechrau gweithio, mewn partneriaeth, gyda rhanddeiliaid, i fapio AASau posibl. Mae'r penderfyniad hwn yn seiliedig ar gyngor gan Baneli Arbenigol y sectorau ac ystyriaeth o'r angen i nodi AASau, yn ogystal â'r cyfle ymarferol i'w nodi. Bydd gwaith yn cael ei wneud yn unol â'r CMCC (paragraffau 50-57), gan gynnwys **ymgynghori'n ffurfiol** ar unrhyw HCM(au) drafft ac Ardaloedd Adnoddau Strategol arfaethedig. Bydd Llywodraeth Cymru hefyd, ar adegau allweddol yn y broses, yn adolygu a ddylid mynd ar drywydd neu roi'r gorau i ddatblygu unrhyw AASau penodol, gan gynnwys:

- wrth benderfynu a yw AASau posibl/pa AASau posibl sy'n symud ymlaen i ymgynghoriad ffurfiol;
- wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad ac unrhyw ddiwygiadau i'r dull gweithredu; ac
- wrth, yn dilyn ymgynghoriad, benderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r gwaith o gyflwyno AASau yn ffurfiol/a pha rai i'w symud ymlaen.

Gan ystyried y rhyngberthnasau rhwng sectorau (e.e. buddiannau a rennir neu sy'n cystadlu, effeithiau amgylcheddol (ar y cyd), gorgyffwrdd gofodol) mae angen dull sy'n dwyn ynghyd ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Er y gellir datblygu rhai o'r ystyriaethau hyn ar lefel sectoraidd, bydd angen ystyried rhai materion ar lefel aml-sectoraidd (h.y. elwa ar gynllunio gofodol amlsector integredig).

Er mwyn mynd i'r afael â hyn (a sicrhau cydraddoldeb a chydlyniant wrth ddatblygu AASau tra'n cydnabod mai dim ond ar gyfer sectorau penodol y gallai fod yn briodol ysgogi polisi SAF_02), rydym yn mabwysiadu dull **integredig a chydgysylltiedig** o ddatblygu'r AASau, gan **ystyried anghenion yn gyfannol ar draws ystod o sectorau** yn hytrach na datblygu cynlluniau ar gyfer AAS ar sail annibynnol ar gyfer sector unigol. O'r herwydd, gellid defnyddio'r dull HCM a ddisgrifir yn CMCC ar raddfa Cymru gyfan neu ranbarthol, gan ystyried y sectorau a gwmpesir gan CMCC.

Bydd mewnbwn rhanddeiliaid yn llywio ac yn sail i'n dull gweithredu ac rydym yn rhagweld gweithio gyda'r Paneli Arbenigol yn ogystal â thrwy ddeialog barhaus ag arweinwyr polisi a llunwyr penderfyniadau i gasglu ac adolygu tystiolaeth briodol i nodi AASau posibl. Rhagwelir y bydd y Paneli Arbenigol yn cynnull ac yn gweithio gyda'i gilydd i ystyried materion sector-benodol ac ar draws sectorau; fodd bynnag, mae'n bosibl y bydd angen gweithio gyda Phanel Arbenigol sector unigol o bryd i'w gilydd.

**Y broses ar gyfer datblygu AASau:**

Bydd **egwyddorion dylunio'r Ardaloedd Adnoddau Strategol** yn nodi nodweddion gweithredol pob sector mewn perthynas â defnyddio adnoddau naturiol a risgiau cysylltiedig i weithrediadau yn y dyfodol. Bwriad cymhwyso egwyddorion dylunio'r AASau yw helpu i sicrhau dull effeithiol, cydlynol a chyson o ddatblygu AASau.

Bydd y gwaith o fapio a nodi AASau posibl yn cael ei ddatblygu drwy nifer o becynnau gwaith rhyng-gysylltiedig, a ddisgrifir isod. Bydd y gwaith yn cael ei lywio gan ac yn adeiladu ar allbynnau tystiolaeth ac ymchwil ehangach, gan gynnwys Canllawiau Lleoliadol ar gyfer Sectorau (SLG) sy'n dod i'r amlwg, allbynnau prosiect Rheoli Adnoddau Naturiol Morol yn Gynaliadwy (SMMNR) ac adroddiad Cefas ar gyfleoedd posibl i gydfodoli yn y sector.

Lle y bo'n briodol, bydd AAS(au) posibl yn cael eu nodi a'u mapio a bydd **adroddiad(au) deilliadau AAS** drafft yn cael eu paratoi, gan ddisgrifio proses adnabod yr AASau.

## Datblygu AASau – pecynnau gwaith allweddol

Bydd gwaith yn cael ei wneud, ar y cyd â rhanddeiliaid a'r Paneli Arbenigol, i nodi a datblygu **ystyriaethau technegol a gweithredol sector-benodol** i lywio datblygiad Ardaloedd Adnoddau Strategol. Yn rhannol, bydd y gwaith hwn yn datblygu ac yn cymhwyso'r data sy'n gysylltiedig ag egwyddorion dylunio'r AASau. Gallai ystyriaethau technegol, er enghraifft, gynnwys paramedrau sy'n gysylltiedig â hygyrchedd a nodweddion gweithredol y sector sy'n ymwneud â defnyddio adnoddau naturiol (e.e. pellter i lan y môr, dyfnder dŵr, uchder tonnau, math o wely'r môr). Bydd allbynnau i'r ystyriaethau hyn yn gyfres o fapiau sy'n disgrifio gwelliannau i feysydd adnoddau wrth i'r gwahanol gyfyngiadau technegol gael eu defnyddio.

Bydd **rhyngweithiadau sector i sector** hefyd yn cael eu hystyried (gan gynnwys cyfleoedd a chyfyngiadau cysylltiedig posibl) er mwyn mireinio ymhellach yr ardaloedd gofodol y gellid cymhwyso polisi SAF_02 iddynt.

Bydd dulliau o ymgorffori **ystyriaethau amgylcheddol** yn cael eu datblygu gyda rhanddeiliaid a'r Paneli Arbenigol, gan ystyried y cam lle byddai angen defnyddio ystyriaethau o'r fath a lefel eu defnydd. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, naratif (ail)bwysleisio polisïau amgylcheddol CMCC, eu cymhwysiad, yr amddiffyniadau/rheoliadau amgylcheddol ehangach sydd ar waith, ac nad yw AASau yn rhoi unrhyw hawliau datblygu. Bydd **asesiadau lefel cynllun** yn cael eu datblygu fel y bo'n briodol.

**Hysbysiadau Cynllunio Morol (HCMau):**

Mae'r CMCC (paragraff 62) yn gwneud darpariaeth ar gyfer cyflwyno dogfennau cynllunio atodol, gan gynnwys HCMau, a fydd yn ystyriaeth berthnasol wrth wneud penderfyniadau. Fel y nodir ym mharagraff 65 CMCC, bydd AASau yn cael eu cyflwyno a bydd polisi SAF_02 yn cael ei weithredu drwy gyhoeddi HCM(au).

Bydd HCM yn nodi cwmpas a graddau'r AAS(au), gan gynnwys manylion yr ardal(oedd) o adnoddau naturiol sydd wedi'u diogelu a'r rhesymeg dros gyflwyno diogelu adnoddau ar gyfer yr ardaloedd hynny. Bydd hefyd yn manylu ar weithredu a chymhwyso polisi SAF_02 yn yr AAS(au) (arfaethedig).

Bydd allbynnau pecynnau gwaith datblygu'r Ardaloedd Adnoddau Strategol a amlinellir uchod yn llywio'r gwaith o baratoi HCM(au) drafft mewn perthynas ag unrhyw AAS(au) arfaethedig sy'n cael eu symud ymlaen i ymgynghoriad. Bydd **HCM(au) drafft** yn cael eu paratoi yn unol â pharagraffau 54 a 64 CMCC. Byddwn yn **ymgynghori** ar HCM(au) drafft ac yn ystyried sylwadau a dderbyniwyd wrth gwblhau unrhyw gynigion i gyflwyno AAsau a gweithredu polisi SAF_02.

Os caiff ei gymeradwyo, bydd unrhyw **HCM(au) terfynol** yn cael eu cyhoeddi, gan weithredu polisi SAF_02 o fewn yr AASau a nodwyd, gyda mapiau ac iNodiadau wedi'u diweddaru ar y Porth Cynllunio Morol. Bydd adroddiad(au) deilliadau terfynol yr AAS hefyd yn cael eu cyhoeddi.

## Atodiad 1 – Diogelu gweithgarwch presennol a defnyddio adnoddau

Mae gweithgareddau sefydledig (wedi'u cydsynio a'r rhai nad oes angen caniatâd ar eu cyfer e.e. pysgodfeydd neu dwristiaeth a hamdden) yn ddefnydd pwysig o ardal y Cynllun sy'n cael eu diogelu fel rhan o'r Cynllun. O'r herwydd, byddant yn ystyriaeth berthnasol, ymhlith materion eraill, a allai effeithio ar fapio'r AASau. Mae ystod eang o weithgareddau eisoes ar waith yn ein moroedd ac mae polisi CMCC yn glir bod yn rhaid eu cydnabod a'u parchu.

Mae SAF_01 yn berthnasol i ddiogelu pob sector (ac eithrio Amddiffyn, sy'n cael ei ddiogelu'n benodol drwy Bolisi DEF_01) a'i nod yw diogelu gweithgaredd a defnydd o adnoddau sy'n bodoli eisoes.

### SAF_01: Diogelu gweithgarwch presennol

a. Rhaid i gynigion sy’n debygol o gael effeithiau niweidiol sylweddol ar weithgaredd sefydledig sy’n dod o dan gais neu awdurdodiad ffurfiol ddangos sut y byddant yn mynd i’r afael â materion cydnawsedd yn ymwneud â’r gweithgaredd hwnnw.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros y cynnig i symud ymlaen o dan amgylchiadau eithriadol.

b. Rhaid i gynigion sy’n debygol o gael effeithiau niweidiol sylweddol ar weithgaredd sefydledig nad yw’n destun awdurdodiad ffurfiol ddangos sut y byddant yn mynd i’r afael â materion cydnawsedd yn ymwneud â’r gweithgaredd hwnnw.

Rhaid i gynigion na allant ddangos cydnawsedd digonol gyflwyno achos clir ac argyhoeddiadol dros fwrw ymlaen.

O dan SAF 01 a a b, dylid dangos cydnawsedd trwy’r canlynol, yn nhrefn blaenoriaeth:

- Osgoi effeithiau niweidiol sylweddol ar y gweithgareddau hynny, a/neu
- Lleihau effeithiau niweidiol sylweddol lle na ellir eu hosgoi; a/neu
- Lliniaru effeithiau niweidiol sylweddol lle na ellir eu lleihau.

Gellir nodi gweithgareddau sydd wedi'u cydsynio, a gweithgareddau y mae angen caniatâd ffurfiol ar eu cyfer, y cyflwynwyd cais ffurfiol ar eu cyfer, yn ofodol ar fapiau fel ardaloedd ar wahân. Mae Polisi SAF_01(a) yn berthnasol i’r mathau hyn o weithgareddau sefydledig. Mae’r polisi hwn yn cydnabod y buddsoddiad a wnaed gan ddatblygwr wrth geisio neu gael caniatâd a disgwyliad dilys y datblygwr hwnnw i allu parhau, o fewn rheswm, i weithredu. O ganlyniad, mae pwysoliad cymharol uchel o bolisi diogelu yn berthnasol.

Mae gweithgareddau presennol nad oes angen caniatâd ffurfiol arnynt yn gofyn am ymagwedd wahanol. Mae'r gweithgareddau hyn fel arfer yn amrywiol ac yn ofodol eang. Serch hynny, mae’n bwysig bod defnydd sefydledig yn cael ei ystyried yn ofalus wrth wneud penderfyniadau, a bod unrhyw sterileiddio diangen o’r adnodd y mae'r gweithgareddau hynny'n dibynnu arnynt, neu unrhyw ddadleoli diangen o’r gweithgaredd ei hun, yn cael ei osgoi. Gellir hefyd nodi gweithgareddau sefydledig nad oes angen caniatâd ffurfiol arnynt ar fapiau (er gyda lefel is o hyder ac mewn ffordd wahanol e.e. mapiau 'gwres'). Mae polisi SAF_01(b) yn gymwys mewn amgylchiadau o'r fath a gall mapio sectorau gefnogi'r broses o weithredu polisi.

Mae polisi diogelu SAF_01 yn sicrhau bod unrhyw gynigion newydd sydd â'r potensial i gael effaith niweidiol ar weithgaredd presennol yn cael eu hystyried yn glir ac yn systematig, yn gynnar yn y broses (dull sy'n cyd-fynd yn bennaf ag arferion rheoleiddio cyfredol). Mewn rhai achosion, mae'r polisi hwn yn cydnabod y gallai effaith niweidiol ar ddefnydd sefydledig fod yn anochel. Mewn sefyllfa o'r fath, mae'r polisi hwn yn sefydlu hierarchaeth sy'n ei gwneud yn ofynnol i ddatblygwyr osgoi, lleihau neu liniaru effeithiau o'r fath neu, os nad yw hyn yn bosibl, i lunio achos clir ac argyhoeddiadol i gyfiawnhau bwrw ymlaen, er mwyn sicrhau ymateb priodol gan y penderfynwyr.

Mae diogelu lle ar gyfer defnydd posibl yn y dyfodol (trwy SAF_02) hefyd yn ystyriaeth ar gyfer cynllunio, er bod hyn yn golygu mwy o ansicrwydd o ran dosbarthu adnoddau a chyfyngiadau sy'n gysylltiedig â defnyddio adnoddau, ynghyd â gwybodaeth amrywiol am anghenion a/neu fwriad sector. O ganlyniad, mae pwysoliad diogelu is yn briodol.

Gall polisi SAF_01 fod yn gysylltiedig â mapiau sy'n disgrifio dosbarthiad gweithgareddau sectoraidd (paragraffau 246 a 247 CMCC). Gall symud ymlaen drwy broses adnabod yr Ardaloedd Adnoddau Strategol ddarparu cyfleoedd i nodi ymhellach feysydd lle mae SAF_01 yn berthnasol o ran defnyddiau sefydledig. Os felly, gall HCM(au) hefyd gynnwys manylion o'r fath os oes rhinwedd mewn gwneud hynny.

## Atodiad 2 – Cyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (DLICD) yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy i wella llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol Cymru. Mae'r CMCC yn defnyddio dull integredig a chyfannol o ymdrin â datblygu cynaliadwy, gan barchu defnyddiau a buddiannau sefydledig tra'n ceisio sicrhau manteision o gyfleoedd newydd; cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth, cydnerthedd ecosystemau a gwerth bioamrywiaeth a chefnogi'r gwaith o reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae datblygu AASau posibl yn rhan o'r fframwaith polisi cynllunio morol integredig a nodir yn y Cynllun. Drwy ddiogelu ardaloedd ag adnoddau allweddol sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol, nod datblygu'r AAsau yw cefnogi'r economi forol i ymateb i anghenion cymdeithasol mewn modd cynaliadwy, gan helpu i ddiwallu anghenion adnoddau hirdymor tra'n sicrhau cydnerthedd yr amgylchedd morol. Bydd datblygiad AASau yn cyfrannu at saith nod llesiant DLICD fel y nodir isod, ac yn cael ei lywio gan y pum ffordd o weithio a nodir yn y Ddeddf.

**Tabl 1. Sut mae Datblygiad AAS yn cyfrannu at saith nod llesiant DLICD**

| Nod Llesiant DLICD | Datblygiad yr Ardaloedd Adnoddau Strategol |
|---|---|
| Cymru lewyrchus | Yn rhan o fframwaith polisi integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac a arweinir gan gynllun sy'n llywio penderfyniadau teg a thryloyw gan awdurdodau cyhoeddus ac yn cydbwyso ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. |
| Cymru gydnerth | Helpu'r economi forol i ymateb i anghenion cymdeithasol mewn modd cynaliadwy drwy ddiogelu adnoddau sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol, gan gynnwys mewn perthynas â thechnolegau ynni carbon isel.<br>Hwyluso cynllunio sectoraidd ac amgylcheddol ystyrlon ac integredig sy'n cydbwyso diogelu bioamrywiaeth â sicrhau bod buddiannau economaidd-gymdeithasol eraill yn cael eu hystyried. |
| Cymru sy’n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Yn ystyried, fel rhan o fapio AASau, anghenion a buddiannau’n gyfannol ar draws ystod o sectorau.<br>Hwyluso ymgysylltu traws-sector i wneud defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol a gofod morol drwy annog cydfodolaeth ac osgoi gwrthdaro. |

| Nod Llesiant DLICD | Datblygiad yr Ardaloedd Adnoddau Strategol |
|---|---|
| Cymru sy'n fwy cyfartal | Helpu'r economi forol i gefnogi cymunedau arfordirol dwyieithog, cydnerth ac ymateb i anghenion cymdeithasol drwy ddiogelu adnoddau sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol. |
| Cymru iachach | Yn ystyried, fel rhan o fapio AASau, anghenion a buddiannau'n gyfannol ar draws ystod o sectorau. |
| Cymru o gymunedau cydlynus | Ymgorffori, o fewn ystyriaethau sy'n cefnogi diffiniad ffiniau'r AASau, gydnabyddiaeth o bwysigrwydd ein treftadaeth forol ac arwyddocâd ein moroedd, a'r cyfleoedd hamdden y maent yn eu cynnig, i'n hiechyd a'n lles a lles ein cymunedau arfordirol. |
| Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Bydd datblygiad yr AASau yn dryloyw ac yn gynhwysol, gydag AASau posibl yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. |

Bydd datblygiad yr AASau yn cyd-fynd yn agos â'r pum ffordd o weithio a nodir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ac yn sail iddynt.

**Tabl 2. 5 Ffordd o Weithio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a datblygu AAS**

| Pum Ffordd o Weithio | Datblygiad yr Ardaloedd Adnoddau Strategol |
|---|---|
| Ystyried yr **hirdymor** fel nad ydym yn cyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain. | Drwy hyrwyddo defnydd cynaliadwy o'r amgylchedd morol, mae datblygiad yr AASau yn canolbwyntio ar reoli gweithgareddau dros yr hirdymor. Ei nod yw sicrhau, drwy fapio a diogelu ardaloedd adnoddau allweddol sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol, bod sectorau morol yn gallu diwallu eu hanghenion adnoddau hirdymor tra'n sicrhau cydnerthedd yr amgylchedd morol. |
| Defnyddio **dull integredig** drwy ystyried holl nodau llesiant Cymru. | Mae Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu dull integredig a chydgysylltiedig o ddatblygu AASau, gan ystyried anghenion yn gyfannol ar draws ystod o sectorau. Bydd datblygiad yr AASau yn ystyried y rhyngberthnasau rhwng sectorau ac yn dwyn ynghyd ystyriaethau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd ac amgylcheddol. |
| **Cynnwys** amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt. | Bydd proses ddatblygu'r AASau yn dryloyw ac yn gynhwysol, wedi'i hategu trwy ymgysylltu â rhanddeiliaid. Bydd pob AAS posibl yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y dogfennau'n glir ac yn hygyrch ac yn cael eu cynhyrchu mewn fformatau priodol. |

| Pum Ffordd o Weithio | Datblygiad yr Ardaloedd Adnoddau Strategol |
|---|---|
| Gweithio gydag eraill mewn ffordd **gydweithredol** i ddod o hyd i atebion cynaliadwy a rennir. | Bydd proses ddatblygu'r AASau yn dryloyw ac yn gynhwysol, wedi'i hategu gan gydweithio ar draws ystod o feysydd polisi a rhanddeiliaid. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG) a phaneli arbenigol yn y sector, i brofi dulliau gweithredu a chydweithio i ddatblygu a chytuno ar atebion. |
| Deall achosion sylfaenol problemau i'w **hatal rhag digwydd** ac archwilio a ddylem newid y ffordd yr ydym yn defnyddio ein hadnoddau ar hyn o bryd. | Bydd y dystiolaeth orau sydd ar gael yn cael ei chymhwyso drwy gydol proses ddatblygu'r AASau, gan ystyried y rhyngberthnasau rhwng sectorau a dwyn ynghyd ystyriaethau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Drwy nodi ardaloedd allweddol o adnoddau sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol, bydd datblygu'r AASau hefyd yn ceisio sicrhau'r gydfodolaeth gorau posibl ac yn lleihau'r gwrthdaro rhwng cyfleoedd sectoraidd. |

Mae egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, (SMNR fel y'u nodir gan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016) hefyd yn sail i ddatblygiad yr Ardaloedd Adnoddau Strategol.

**Tabl 3. Egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a datblygu'r Ardaloedd Adnoddau Strategol**

| Egwyddorion SMNR | Datblygiad yr Ardaloedd Adnoddau Strategol |
|---|---|
| Rheolaeth addasol | Bydd y dystiolaeth orau sydd ar gael yn cael ei chymhwyso drwy gydol proses ddatblygu'r AASau. Byddwn yn gweithio gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy'r MPSRG a phaneli arbenigol y sectorau, i ddatblygu, profi a, lle y bo'n briodol, addasu dulliau gweithredu.<br><br>Drwy nodi ardaloedd allweddol o adnoddau sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol, mae datblygiad AASau yn ceisio hwyluso deialog rhwng sectorau, gyda'r nod o sicrhau'r gydfodolaeth gorau posibl a lleihau gwrthdaro rhwng cyfleoedd sectoraidd. |
| Graddfa | Byddwn yn cymhwyso ystyriaethau 'digonolrwydd graddfa' i ddatblygiad AASau, gan ystyried graddfa gweithredu sector a chyfradd twf bosibl. Er mwyn sicrhau eglurder o ran diogelu, byddwn yn osgoi ffiniau AAS anghymesur o gymhleth ac ardaloedd AAS digyswllt neu dameidiog, lle bo hynny'n bosibl. |
| Cydweithredu ac ymgysylltu | Bydd proses ddatblygu'r AASau yn dryloyw ac yn gynhwysol, wedi'i hategu gan gydweithio ar draws ystod o feysydd polisi a rhanddeiliaid, gan gynnwys drwy'r MPSRG a phaneli arbenigol y sector. |

<table>
<tr><th>Egwyddorion SMNR</th><th>Datblygiad yr Ardaloedd Adnoddau Strategol</th></tr>
<tr><td>Cyfranogiad y cyhoedd</td><td>Bydd pob AAS posibl yn destun ymgynghoriad cyhoeddus. Bydd y dogfennau'n glir ac yn hygyrch ac yn cael eu cynhyrchu mewn fformatau priodol.</td></tr>
<tr><td>Tystiolaeth</td><td>Bydd y dystiolaeth orau sydd ar gael yn cael ei chymhwyso drwy gydol proses ddatblygu'r AASau. Byddwn yn gweithio'n agos gydag arweinwyr polisi a rhanddeiliaid i sicrhau ein bod wedi nodi ac yn defnyddio'r dystiolaeth orau sydd ar gael ac i ddilysu dulliau a dadansoddi.</td></tr>
<tr><td>Manteision lluosog</td><td rowspan="4">Rydym yn mabwysiadu dull integredig a chydgysylltiedig o ddatblygu'r AASau, gan ystyried anghenion yn gyfannol ar draws sectorau ac ystyried y rhyngberthnasau rhwng sectorau, a dwyn ynghyd ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol.<br><br>Mae datblygiad yr AASau yn canolbwyntio ar sicrhau, drwy fapio a diogelu ardaloedd adnoddau allweddol sydd â'r potensial i gefnogi defnydd cynaliadwy yn y dyfodol, bod sectorau morol yn gallu diwallu eu hanghenion adnoddau hirdymor tra'n sicrhau cydnerthedd yr amgylchedd morol. Bydd datblygiad AASau hefyd yn ceisio annog deialog rhwng sectorau ar gyfleoedd i gydfodoli er mwyn gwneud y defnydd gorau posibl o ofod morol.</td></tr>
<tr><td>Hirdymor</td></tr>
<tr><td>Camau ataliol</td></tr>
<tr><td>Meithrin cydnerthedd</td></tr>
</table>